

i Gyfnodolion Victoriaidd (*Research Society for Victorian Periodicals*) yn Efrog Newydd gyda'r amcan o hyrwyddo ymchwil ymhob maes sy'n ymwneud â gwasg gylchgronol a newyddiadurol oes Victoria. Ffurfiwyd cangen Brydeinig o'r Gymdeithas yn 1976, a'i phen-cadlys yng Nghanolfan Astudiaethau Victoriaidd Prifysgol Leicester. Mae llwyddiant diamheuol y gymdeithas hon dros y blynyddoedd diwethaf yn brawf pendant o'r lle anrhydeddus a roddir bellach i astudiaethau o'r wasg gyfnodol Saesneg.

Arwydd pellach o'r gweithgarwch cynyddol hwn yw'r holl gyfarpar llyfryddol a gyhoeddwyd yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf i gynorthwyo ysgolheigion ac ymchwilwyr ym maes llên gyfnodol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Er enghraifft, cyhoeddwyd *Victorian periodicals: a guide to research* dan olygyddiaeth J. Don Vann a Rosemary T. VanArsdel yn Efrog Newydd yn 1978, gyda'r amcan o asesu gwerth y cylchgrawn a'r newyddiadur i'r hanesydd a'r beirniad llenyddol, pwysu a mesur rhestrau lleoli a chatalogau llyfrgelloedd, a disgrifio'r cyfarpar llyfryddol sydd eisoes ar gael. Ymddangosodd ail gyfrol dan yr un olygyddiaeth yn 1989, a hon yn fwy arbenigol ei naws yn cynnwys erthyglau am fathau penodol o gyhoeddiadau megis eiddo Aled G. Jones ar y wasg gyfnodol Gymreig. Yn 1984 ymddangosodd y *Journal of newspaper and periodical history* am y tro cyntaf, y ceir tri rhifyn ohono'n flynyddol. Bu gwasg gyfnodol y ganrif ddiwethaf yn faes toreithiog i'r llyfryddwyr hwythau, ac aeth rhai ati i grynhoi ynghyd ddetholiad o'r llu astudiaethau a gynhyrchwyd am y wasg. Llyfryddiaeth anodiadol bwysig o'r fath yw eiddo Lionel Madden a Diana Dixon *The nineteenth-century periodical press in Britain: a bibliography of modern studies 1901-1971* a gyhoeddwyd gyntaf fel atodiad i'r *Victorian periodicals newsletter* yn 1975 cyn ei had-argraffu'n gyfrol yn 1976. Bu'r ddau olygydd yn cynorthwyo Larry K. Uffelman gyda'i *The nineteenth-century periodical press in Britain: a bibliography of modern studies, 1972-1987*, a gyhoeddwyd fel atodiad i'r *Victorian periodicals review* yn 1992.

Hwyrach mai'r datblygiad pwysicaf y bu'r Gymdeithas Ymchwil i Gyfnodolion Victoriaidd yn gyfrifol amdano oedd noddi'r *Waterloo directory of Victorian periodicals, 1824-1900, phase I*, a gyhoeddwyd gan Wasg Prifysgol Laurier ar ran Prifysgol Waterloo, Canada, yn 1977. Golygydd y gwaith gan Michael Wolff o Brifysgol Massachusetts,

John S. North o Brifysgol Waterloo a Dorothy Deering o Brifysgol Purdue. Y mae'r *Waterloo directory* yn crynhoi ynghyd y wybodaeth am newyddiaduron a chylchgronau gwledydd Prydain ac Iwerddon sydd ar wasgar mewn nifer o gatalogau a rhestrau cyfun megis *The Times tercentenary handlist*, *The British union catalogue of periodicals*, a'r *Union list of serials held in libraries in the United States and Canada* yn ogystal â rhai rhestrau eraill, ac oherwydd anferthedd y dasg o gyfuno'r eitemau gwasgarog hyn, a chymharu'r manylion llyfryddol â'i gilydd, bu'n rhaid defnyddio cyfrifiadur i drefnu a dosbarthu'r wybodaeth a gasglwyd. Ceir tua 29,000 o gyfnodolion yn y gyfrol, a thua 4,400 o'r rhain yn groes-gefeiriadau rhwng teitlau perthynol ac amrywiadau mewn teitlau.

Mae'r gwaith yn seiliedig ar bedair egwyddor sylfaenol. Yn gyntaf mae'n amcanu at gynnwys cymaint ag sy'n bosib o gynnyrch y wasg gylchgronol a newyddiadurol rhwng 1824 a 1900, a'r eitemau hynny wedi eu rhestru'n un rhediad yn nhrefn yr wyddor. Yn ail mae'r gwaith yn dibynnu'n drwm ar y defnydd a wneir ynddo o groes-gefeiriadau, gan arwain yr ymchwilydd o'r naill deitl perthynol i'r llall. Yn drydydd ceisir rhoi cymaint o wybodaeth ag y gellir am yr eitemau eu hunain drwy restru teitlau ac is-deitlau, darparu rhiflau cyfresi, cyfrolau a rhifynau, dyddiadau cyhoeddi, enwau golygyddion, cyhoeddwr ac argraffwyr, yn ogystal â manylion am brisoedd, maint ac amllder cyhoeddi, lle bo'r rheini i'w cael. Yn bedwerydd cofnodir yr anghysonderau hynny a geir rhwng y gwahanol restrau a chatalogau a ddefnyddiwyd wrth lunio'r gwaith.

Fodd bynnag, er pwysiedig yw'r *Waterloo directory, phase I*, prin y gellir dweud bod gwaith, sy'n seiliedig ar restrau a chatalogau a gyhoeddwyd o'r blaen, yn gyflawn nac yn gywir. Ac y mae hyn ysywaeth yn arbennig o wir am yr eitemau Cymraeg. Lithrodd camgymeriadau lu i'r rhestrau cynharach hyn wrth gyfnodi teitlau cylchgronau a newyddiaduron Cymraeg eu hiaith y ganrif ddiwethaf, a dyblygir y camgymeriadau hyn yn y *Waterloo directory*. Y mae'n wir dweud hefyd mai'n gymharol ddiweddar y daethpwyd i sylweddoli gwerth y casgliadau o gynnyrch y wasg gyfnodol Gymraeg yn ein prif lyfrgelloedd, ac y rhoddwyd iddynt y sylw haeddiannol. Yr oedd nifer o'r casgliadau hyn heb eu catalogio na'u rhestru'n ddigonol pan luniwyd amryw o'r rhestrau cynharach, megis *The Times tercentenary handlist* a'r *British union catalogue of periodicals*. Yn wir gwelsom

eisoes mai mor ddiweddar â 1976, yr union flwyddyn y cyhoeddwyd *The Waterloo directory*, yr ymddangosodd y rhestr gyflawnaf oll o gynnyrch wasg gylchgronol Cymru gyda chyhoeddi *Cylchgronau Cymreig a'u lleoliad* gan ein Llyfrgell Genedlaethol. O ganlyniad nid yw'r *Waterloo directory, phase I* yn cynnig arweiniad digonol i'r ymchwilydd o Gymro.

Ymddangosodd *The Waterloo directory of Irish newspapers and periodicals, 1800-1900*, dan olygyddiaeth John S. North yn 1986, er nad yw bellach yn gysylltiedig â'r Gymdeithas Ymchwil i Gyfnodolion Victoriaidd. Cynnwys y gwaith hwn gyfeiriadau at 3932 o deitlau cylchgronau a newyddiaduron a gyhoeddwyd yn Iwerddon yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac mae'n seiliedig ar ddaliadau hanner cant o lyfrgelloedd yn y Deyrnas Gyfunol ac Iwerddon. Nid rhestr yn unig mohoni, fodd bynnag. Ceisiodd tîm o ymchwilwyr ddod o hyd i fanylion am y cyhoeddiadau hyn a ddosbarthwyd i bump ar hugain o gategoriâu disgrifiadol, yn cynnwys enwau golygyddion, cyhoeddwr, perchnogion ac argraffwyr, maint a phrisoedd yr eitemau, amllder eu cyhoeddi, eu cylchrediad a'u prif nodweddion. Dair blynedd yn ddiweddarach, yn 1989, cyhoeddwyd *The Waterloo directory of Scottish newspapers and periodicals* yn ddwy gyfrol sylweddol, eto dan olygyddiaeth John S. North.

Cynrychiolir 7320 o deitlau yn y rhestr, sy'n dilyn yr un patrwm, fwy neu lai, â'r llyfryddiaeth Wyddelig, gyda'r gwahaniaeth fod y llyfryddiaeth hon hefyd yn cynnwys lluniau ffacsimili o wyneb-ddalenau'r eitemau. Mae'r ddwy lyfryddiaeth fel ei gilydd yn cynnwys manylion am leoliad y mwyafrif o'r teitlau a restrir ynddynt yn ogystal. Afraid dweud bod y cyfrolau gwerthfawr hyn yn anhepgor i'r sawl a fyn ymgydnabod â hanes llenyddol, gwleidyddol a chymdeithasol yr Alban ac Iwerddon yn ystod y ganrif ddiwethaf.

Bu'n freuddwyd gan lyfrgellwyr ac ysgolheigion ers blynyddoedd lawer i weld cyhoeddi llyfryddiaeth fanwl o holl gynnyrch wasg gyfnodol Cymru o'i chychwyniad yn 1735

hyd y dydd heddiw. Yn 1979 dyfarnwyd cymhorthdal gan Ymddiriedolaeth Leverhulme i Adran Astudiaethau Llyfryddol ac Adran Astudiaethau Cymreig Coleg Llyfrgellwyr Cymru (fel yr oedd bryd hynny) i'w galluogi i ymchwilio i'r wasg gyfnodol yng Nghymru o'i dechreuad yn 1735 hyd 1914. Penodwyd cynorthwyr ymchwil, Huw Walters, am gyfnod o ddwy flynedd i ymgymryd â'r dasg o lunio llyfryddiaeth ddisgrifiadol gynhwysfawr o astudiaethau yn ymwneud â chylchgronau a phapurau newyddion y cyfnod, a hynny dan gyfarwyddwyd Lionel Madden a Philip Henry Jones. Cynnwys y llyfryddiaeth, a gedwir bellach ar gardiau yn y Coleg (erbyn hyn Adran Astudiaethau Gwybodaeth a Llyfrgellyddiaeth Prifysgol Cymru, Aberystwyth) gyfeiriadau at restrau, catalogau a llyfryddiaethau, hanesion cyffredinol am y wasg, astudiaethau o deitlau unigol, eu golygyddion a'u hargraffwyr. Bu'r llyfryddiaeth o gymorth amhrisiadwy wrth baratoi'r gyfrol arbennig hon, a chafwyd pob rhywydddeb gan yr Adran i alluogi'r ymchwilydd presennol i ymgynghori â'r cardiau sydd yn ei meddiant.

Bu'n fwriad gan y Coleg ymestyn y cynllun am gyfnod o bum mlynedd, ac ym mis Ionawr 1981 gwnaed cais arall i Ymddiriedolaeth Leverhulme am gymhorthdal pellach i gyflogi cynorthwyr ymchwil i baratoi llyfryddiaeth o gynnyrch y wasg gyfnodol Gymreig ei hun. Methiant fu'r cais hwnnw fodd bynnag. Yna yn 1984 yn dilyn ad-drefnu o fewn Adran y Llyfrau Print yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, penodwyd llyfrgellydd cynorthwyol o'r Isadrn Lyfryddol i ymgymryd â'r union orchwyl hwn, a'r gyfrol hon, *Llyfryddiaeth cylchgronau Cymreig, 1735-1850*, yw ffrwyth rhan gyntaf y cynllun. Mae'r gwaith o lunio'r ail gyfrol a fydd yn disgrifio cylchgronau Cymreig y cyfnod 1851-1900 yn mynd yn ei flaen.

(Mae'r sylwadau hyn gan Huw Walters yn ffurfio rhan o bennod sy'n dwyn y teitl 'Llyfryddiaeth y wasg gyfnodol Gymreig: nodyn hanesyddol' yn y gyfrol *Llyfryddiaeth Cylchgronau Cymreig 1735-1850*, o waith Huw a gyhoeddwyd gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn 1993 — Gol.)

## LLYFRAU YSTWYTH

7 Princess Street, Aberystwyth

Dyfed SY23 1DX

Ffôn: (0970) 617511

Bob amser yn awyddus i brynu llyfrau ail-law Cymraeg a Chymreig.

Llun-Sadwrn 10.00 a.m. — 5 p.m.  
Ar gau ddydd Mercher